**Cofnodion cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio a gynhaliwyd Nos Lun, Medi 14eg 2015 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Mark Young (cadeirydd), Rob Parkes (is gadeirydd), Margaret Bowe, Medwyn Williams, Philip Stevens a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Gaynor Morgan Rees, Shereen Devine.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1 **Datgan Diddordeb Personol:** Datganodd yr holl aelodau oedd yn bresennol eu diddordeb personol ynglŷn â chais cynllunio Neuadd y Dref Dinbych.

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Orffennaf 20fed 2015 yn dilyn gwelliant i'r cofnodion Cymraeg ynglŷn â phwy oedd yn bresennol yn y cyfarfod.**

3. **Materion yn codi.** Mewn ateb dywedodd y cadeirydd fod y digwyddiad hyfforddi cynllunio wedi bod yn ddigwyddiad proffesiynol ac agored. Gyrrwyd llythyr o werthfawrogiad ac yn diolch gan glerc y dref. Dywedodd y swyddogion oedd yn bresennol yn y cyfarfod hyfforddi eu bod yn cytuno gyda phenderfyniadau cynghorau tref a chymuned ar 94% o geisiadau

4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio

(1) Tir yn Iard y Stesion, Ffordd y Stesion - cais caniatâd ardal gadwraeth i ddymchwel adeiladau.
(2 1 - 4 Rhes Pen y Bryn, Lôn Crown - gwaith ar goed mewn ardal gadwraeth - torri coed sycamorwydden.
(3) Tir yn Llwyn Goch, Stad Ddiwydiannol Colomendy - arddangos hysbyseb.
(4) Neuadd y Dref, Sgwâr y Goron - gosod drws diogelwch (cais adeilad rhestredig).
(5) Tir ym Mhen y maes, Llanrhaeadr - newid defnydd i storfa lefrith a dosbarthiad a newidiadau i fynedfa cerbydau (cais ôl-weithredol).

Ynglŷn â'r cais cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer tir yn St David's House, Lôn Dewi Sant - adeiladu tri tŷ ar wahân a gwaith cysylltiol, dywedodd clerc y dref fod ymholiadau gydag adran cynllunio CSDd wedi cadarnhau fod y tir o fewn ardal datblygu Dinbych. Cytunwyd na fyddai'r cyngor tref yn gwrthwynebu'r cais ond i dynnu sylw at bryderon ynglŷn â mynedfa i'r safle dan sylw gan fod y fynedfa yn gul a chyfagos at lwybr troed cyhoeddus oedd yn arwain ac yn ymuno a Lôn Dewi Sant oedd ei hun yn lôn gul gyda'r gweledydd yn anodd.

Ynglŷn â'r cais cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer 59, Erw Salusbury - adeiladu estyniad un llawr i gefn yr adeilad, cytunwyd na fyddai'r cyngor tref yn gwrthwynebu'r cais ond i dynnu sylw at bryderon ynglŷn â maint yr estyniad ac os oedd yr hyn a fwriedir yn cydymffurfio a'r rheoliadau presennol

5. **Materion Cynllunio eraill:**

(1) Clarke Telecom - uwchraddio arfaethedig i Glwb Ceidwadwyr Dinbych, 4 Heigad. - nodwyd heb wrthwynebu
(2) Cyfarwyddiaeth Cynllunio - ymgynghoriad ar newidiadau i'r polisi a'r canllawiau cynllunio manwerthu cenedlaethol - nodwyd. Cytunwyd i'r aelodau oedd yn dymuno

cyfleu sylwadau ynglŷn â'r ymgynghoriad i yrru eu sylwadau drwy gyfrwng e-bost i glerc y dref.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.38 o'r gloch.

Arwyddwyd:.......................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:.............................................